**Risk 5**

## Our working days don't match our busy times

Fire stations in North Wales are at their busiest in the afternoons and evenings. This is as true for quiet villages as it is for the more heavily populated towns.

The problem is that the existing shift patterns were never developed with this in mind. What happens now is that many of our firefighters leave work at 6 p.m., just as the number of calls is beginning to rise.

### The Issues:

Wholetime firefighters at our three 24-hour shift fire stations (Deeside, Rhyl and Wrexham) are working and able to respond whatever the hour, day or night.

Firefighters at our five day crewed stations (Bangor, Caernarfon, Colwyn Bay, Holyhead and Llandudno), however, work differently. Day crewed stations operate as if they were shift stations between the hours of 8 a.m. and 6 p.m., but outside these hours, they operate in the same way as a retained station.

On day crewed stations, the response times for incidents occurring between 8 a.m. and 6 p.m. are naturally shorter than the response times outside these hours.

Wholetime firefighters at our three 24-hour shift fire stations get paid a set amount, however many incidents they attend.

Wholetime firefighters at our five day-crewing stations get paid a set amount for working between 6 a.m. and 6 p.m., however many incidents they attend. The difference is that each additional attendance outside those hours attracts an additional payment. This averages a total of **£65 - £100** each time a fire engine is turned out.

Wholetime firefighters working on day-crewing stations and retained firefighters are required to live/work in close proximity to the fire station to minimise the delay before they can turn out to incidents. Current rules stipulate that the travel distance must be achievable within four minutes.

Because of nationally negotiated Conditions of Service, local fire authorities have been compelled to accept a one-size-fits-all work pattern for day-crewing stations. More recently, however, as part of central government's drive to modernise the fire service, local fire authorities have been encouraged to manage their workforce in a way that makes sense in terms of improving public safety and making the best use of public money.

We would be particularly interested in looking into the possibility of offering new part-time contracts for firefighters, so that they would be paid to work for a set number of hours, irrespective of how many incidents they attend during their shift.

New arrangements such as these could be particularly significant for those retained firefighters who work from day-crewed stations, as well as those who currently turn out to significant numbers of false alarms. We acknowledge that some of the changes being proposed in this plan will probably reduce the number of incidents that they would normally attend; and therefore reduce the money they would expect to earn from incident fees.

### What we will do about it:

Rather than continue to operate a system that sends firefighters home just at a time when the number of incidents is continuing to increase, we will change the hours they spend on duty to reflect the times of greatest demand. By doing this, we will have crews ready to respond sooner to a larger number of incidents. This is illustrated in the graph opposite.

Based on the number of calls received between 6 p.m. and 10 p.m. at our day-crewed stations last year, this change would release around **£75,000.**


From the point of view of the wholetime firefighters on day crewed stations, they would find that their busy times fall within their normal working day leaving them with fewer turnouts to respond to from home during their standby hours.

Analysis of the times of day when incidents happen did not lead us to conclude that there was any reason to change the four-days-on, four-days-off working pattern. Neither did we see any reason to change the number of hours spent on duty.

### Planned Actions:

To introduce a later start and finish time for wholetime firefighters on day crewed stations.
The morning standby hours from home will be worked between 10.00 and 12.00, and the time on duty from the station will be from 12.00 until 22.00.

To assess the effectiveness of offering new part-time contracts for firefighters so that their income is not dependent on the number of incidents that they attend during their contracted working hours.




This graph shows how many incidents a day-crewed fire station would typically attend in a year at every hour of the day. The same general pattern is replicated at fire stations right across North Wales, and shows that the busiest times are during the afternoon and evening, tailing off again in the early hours. By changing the times of the working day for wholetime firefighters on day crewing stations so that they start and finish a few hours later, we can improve our reaction time when most incidents occur.

## JARGON BUSTER

**The Times People Work:**

**Day Crewing**

Wholetime firefighters on day-crewed stations work to a nationally negotiated shift pattern to ensure an average of 42 hours per week, including rest and meal breaks. In North Wales this is a "four-days-on four-days-off" pattern over an eight week cycle. The first two hours of every working day is on standby from home, the following ten hours are spent on duty from the fire station, and the remaining hours overnight are on standby off station (including from home).

| | |
|---|---|
| 06.00 – 08.00 | Standby off station (no additional pay for incidents attended) |
| 08.00 – 18.00 | On station (incl. meal & tea breaks) |
| 18.00 – 06.00 | Standby off station (additional pay for incidents attended) |

**24 Hour Shift**

Wholetime firefighters on 24 hour shift stations work to a nationally negotiated shift pattern whereby they work an average of 42 hours a week, in an eight week cycle, based on a shift rota of "two days on, two nights on, four days off".

Days are worked from 09.00 – 18.00 (9 hours)
Nights are worked from 18.00 to 09.00 (15 hours)

**Retained**

Retained firefighters are released by their main employers to attend their local fire station to respond to emergency incidents. They are paid an annual retainer fee, for which they provide agreed on-call hours each day or week over the year. They are also paid for turning out in response to calls, for attending incidents and for attending training.

**Risg 5**

## Dydy ein diwrnodiau gwaith ddim yn cyd-fynd â'n hamseroedd prysur

Mae gorsafoedd tân yng Ngogledd Cymru brysuraf yn y prynhawniau a gyda'r nosau. Mae hyn mor wir am bentrefi distaw ag am y trefi poblog.

Y broblem ydy nad oedd hyn dan ystyriaeth pan gafodd y patrymau shifftiau presennol eu datblygu. Yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ydy bod llawer o'n hymladdwyr tân yn gadael y gwaith am 6 y nos, sef ar yr adeg y bydd nifer y galwadau'n dechrau cynyddu.

### Y Materion:

Mae'r ymladdwyr tân llawn amser yn ein tair gorsaf shifft 24 awr (Glannau Dyfrdwy, y Rhyl a Wrecsam) yn gweithio ac yn medru ymateb pa awr bynnag o'r dydd neu'r nos fydd hi.

Mae'r ymladdwyr tân yn ein pum gorsaf criw dydd (Bae Colwyn, Bangor, Caergybi, Caernarfon, a Llandudno), fodd bynnag, yn gweithio'n wahanol. Mae gorsafoedd criw dydd yn gweithio fel petaen nhw'n orsafoedd shifftiau rhwng 8 y bore a 6 y nos, ond y tu allan i'r oriau yma, maen nhw'n gweithio yn yr un ffordd â gorsaf ran amser. Ar orsafoedd criw dydd, mae'r amser ymateb i ddigwyddiadau rhwng 8 y bore a 6 y nos yn naturiol yn llai na'r amser ymateb y tu allan i'r oriau yma.

Mae ymladdwyr tân llawn amser yn ein tair gorsaf shifft 24 awr yn cael eu talu swm penodol, pa faint bynnag o ddigwyddiadau maen nhw'n mynd allan atynt. Mae ymladdwyr tân llawn amser yn ein pum gorsaf criw dydd yn cael eu talu swm penodol am weithio rhwng 6 y bore a 6 y nos, pa faint bynnag o ddigwyddiadau maen nhw'n mynd allan atynt. Y gwahaniaeth ydy eu bod nhw'n cael tâl ychwanegol am bob tro maen nhw'n cael eu galw allan y tu allan i'r oriau hynny. Mae hyn ar gyfartaledd yn gyfanswm o **£65 - £100** bob tro mae injan dân yn troi allan.

Mae gofyn i ymladdwyr tân llawn amser sy'n gweithio ar orsafoedd criw dydd ac ymladdwyr tân rhan amser fyw/gweithio yn agos at yr orsaf dân er mwyn bod cyn lleied o amser â phosib cyn iddynt fedru troi allan i ddigwyddiadau. Mae'r rheolau presennol yn mynnu bod rhaid gwneud yr amser teithio o fewn pedwar munud.

Oherwydd yr Amodau Gwasanaeth a drafodwyd yn genedlaethol, mae awdurdodau tân lleol wedi cael eu gorfodi i dderbyn patrwm gwaith "addas i bawb" ar gyfer gorsafoedd criw dydd. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, fel rhan o ymgais y llywodraeth ganolog i foderneiddio'r gwasanaeth tân, mae awdurdodau tân lleol wedi cael eu hannog i reoli eu gweithlu mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i wella diogelwch y cyhoedd a gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn edrych ar y posibilrwydd o gynnig cytundebau rhan amser newydd i ymladdwyr tân, er mwyn iddyn gael eu talu am weithio nifer penodol o oriau, ni waeth pa faint bynnag o ddigwyddiadau y maent yn mynd allan atynt yn ystod eu shifft.

Gallai trefniadau newydd fel hyn fod o bwys i'r ymladdwyr tân rhan amser hynny sy'n gweithio o orsafoedd criw dydd, yn ogystal â'r rhai sy'n troi allan i nifer sylweddol o alwadau diangen. Rydym yn cydnabod y bydd rhai o'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn y cynllun hwn yn debygol o ostwng nifer y digwyddiadau y byddent yn mynd allan atynt fel arfer; ac felly'n lleihau'r arian y byddent yn disgwyl ei ennill o ffioedd digwyddiadau.

### Beth ydym am ei wneud am hynny:

Yn hytrach na pharhau i weithredu system sy'n anfon ymladdwyr tân adref ar yr adeg pan fo nifer y digwyddiadau'n parhau i gynyddu, byddwn yn newid yr oriau y byddant yn ei dreulio ar ddyletswydd i adlewyrchu'r amseroedd lle mae'r galw mwyaf. Trwy wneud hyn, bydd gennym griwiau yn barod i ymateb yn gynt i nifer uwch o ddigwyddiadau. Dangosir hyn yn y graff gyferbyn.


Yn seiliedig ar nifer y galwadau sy'n cyrraedd rhwng 9 y nos a 10 y nos yn ein gorsafoedd criw dydd y llynedd, bydd y newid hwn yn rhyddhau tua **£75,000.**

O safbwynt yr ymladdwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd, byddent yn gweld bod eu hamseroedd prysuraf yn digwydd yn ystod eu diwrnod gwaith, gan olygu llai o droi allan o gartref yn ystod eu hamseroedd wrth gefn. Ni wnaeth dadansoddi amseroedd y diwrnod pan fydd digwyddiadau arwain at gasglu bod angen newid y patrwm pedwar-diwrnod-o-waith, pedwar-diwrnod-i-ffwrdd. Welsom ni ddim chwaith reswm i newid nifer yr oriau sy'n cael eu treulio ar ddyletswydd.

### Y Camau Arfaethedig:

Cyflwyno amser cychwyn a gorffen i ymladdwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd sy'n hwyrach.
Bydd yr oriau wrth gefn o gartref yn cael eu gweithio rhwng 10.00 a 12.00, a bydd yr amser ar ddyletswydd yn yr orsaf rhwng 12.00 a 22.00.

I asesu pa mor effeithiol yw cynnig cytundebau rhan amser newydd i ymladdwyr tân fel nad yw eu hincwm yn dibynnu ar nifer y digwyddiadau y maent yn mynd atynt yn ystod eu horiau gwaith.




Mae'r graff yma'n dangos faint o ddigwyddiadau y byddai gorsaf dân criw dydd yn mynd atynt fel arfer mewn blwyddyn yn ôl pob awr o'r dydd. Mae'r un patrwm cyffredinol yn digwydd mewn gorsafoedd tân ledled Gogledd Cymru, ac mae'n dangos mai'r adegau prysuraf yw yn ystod y prynhawn a gyda'r nosau, gan ostwng yn oriau mân y bore. Trwy newid amseroedd y diwrnod gwaith ar gyfer ymladdwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd fel eu bod yn dechrau ar eu gwaith yn hwyrach ac yn gorffen yn hwyrach, gallwn wella'r amser ymateb pan fo'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau.

## DEALL Y TERMAU

**Yr Amseroedd pryd mae pobl yn gweithio:**

**Criw Dydd**
Mae ymladdwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd yn gweithio yn ôl patrwm shifftiau a drafodwyd yn genedlaethol er mwyn sicrhau wythnos sydd ar gyfartaledd yn 42 awr, gan gynnwys hoe ac amser bwyta. Yng Ngogledd Cymru, mae hyn golygu patrwm o "bedwar-diwrnod-o-waith a phedwar-diwrnod-i-ffwrdd" dros gyfnod o wyth wythnos. Mae'r ddwy awr gyntaf yn cael eu treulio wrth gefn, gartref, y deg awr nesaf ar ddyletswydd yn yr orsaf dân, a gweddill yr oriau dros nos wrth gefn i ffwrdd o'r orsaf (gan gynnwys o gartref).

06.00 – 08.00 Wrth gefn i ffwrdd o'r orsaf (dim taliadau ychwanegol am fynd at ddigwyddiadau)
08.00 – 18.00 Yn yr orsaf (gan gynnwys hoe i fwyta a phaned)
18.00 – 06.00 Wrth gefn i ffwrdd o'r orsaf (taliadau ychwanegol am fynd at ddigwyddiadau)

**Shifft 24 awr**
Mae ymladdwyr tân ar orsafoedd shifft 24 awr yn gweithio yn ôl patrwm shifftiau sydd wedi eu pennu'n genedlaethol lle maent yn gweithio 42 awr yr wythnos ar gyfartaledd, mewn cylch wyth wythnos, yn seiliedig ar rota shifftiau sy'n "ddau-ddiwrnod-o-waith, dau-ddiwrnod-i-ffwrdd".
Mae'r diwrnodiau'n golygu o 09.00 i 18.00 (9 awr)
Mae'r nosau'n golygu o 18.00 i 09.00 (15 awr)

**Rhan Amser**
Mae ymladdwyr tân rhan amser yn cael eu rhyddhau gan eu prif gyflogwyr i fynd i'w gorsaf dân leol i ymateb i ddigwyddiad brys. Maent yn cael tâl cadw blynyddol, drwy gytuno i ddarparu hyn a hyn o oriau ar-alwad y dydd neu'r wythnos dros y flwyddyn. Maent hefyd yn cael eu talu am droi allan i ymateb i alwad, am fynd at ddigwyddiad ac am hyfforddiant.